

22.11.22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Hoffwn ddiolch i chi fel rhieni, yn y lle cyntaf, am eich cefnogaeth arbennig i ddau achlysur diweddar ble rydym wedi codi arian yn yr ysgol. Mae ymdrechion ein teuluoedd i barhau i feddwl am, ac i weithredu er lles eraill, hyd yn oed o ystyried y cyfnod anodd ariannol rydym i gyd yn ei wynebu, yn destun clod.

Gwych oedd gallu cyflwyno dros £1700 i gefnogi Jacob Crane a’l deulu'r tymor yma wrth i Jacob frwydro yn erbyn afiechyd difrifol ar hyn o bryd. Roedd cyfraniad y disgyblion ar y diwrnod, a’u hymroddiad at yr achos, sydd mor agos i’n calonnau ni yma, yn destun balchder enfawr i ni fel cymuned ysgol. Mae ein meddyliau a’n dymuniadau ni i gyd fel ysgol o hyd gyda Jacob ar y frwydr anodd mae e’n parhau i wynebu.

Yn flynyddol, mae cyngor yr ysgol yn dewis ein bod yn cefnogi elusen ‘Plant Mewn Angen’. Gwych yw rhannu bod y disgyblion unwaith eto wedi cyfrannu bron i £600 o bunnoedd at yr elusen sydd yn cefnogi Cymaint o bobl ifanc ar draws Prydain a thu hwnt.

Yn dilyn ceisiadau di-ri gan ein disgyblion, rydym yn mynd i ddathlu ymddangosiad Cymru yng Nghwpan y Byd am y tro cyntaf ers 64 o flynyddoedd ddydd Gwener yma. Gwahoddir y disgyblion i ymuno gyda [‘Wal Goch Bryn Tawe’](#) drwy wisgo **‘Coch dros Gymru’** i’r ysgol - ni fyddwn yn codi tâl am hyn, dim ond cais i bob un i ymuno er mwyn dathlu ein Cymreictod! Hoffwn eich atgoffa y dylai unrhyw wisg ar ddiwrnodau fel hyn fod yn addas a’i fod yn efelychu’r safonau disgwylidiedig ar gyfer ysgol/lle gwaith. Byddwn hefyd yn darlledu’r gêm yn fyw yn yr ysgol fore Gwener. Mae’n achlysur cyffrous ac hanesyddol i ni fel cenedl a gobeithiwn yn fawr fedru mwynhau’r cyfle fel cymuned ysgol (ac adeiladu ar berfformiad positif ail hanner y gêm nos Lun!).

Mae yna nifer o ddyddiadau pwysig yr hoffwn eich atgoffa ohonynt, wedi eu cynllunio cyn diwedd y tymor, ble rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu i Fryn Tawe unwaith eto:

Dyddiad	Digwyddiad
Nos Iau 24.11.22	Noson Adborth ar Gynnydd Blwyddyn 11 (gweler y <a href="#">llythyr yma</a> , rydych eisoes wedi ei dderbyn) rhwng 16:00 i 18:30 yn yr ysgol
Nos Fawrth 06.12.22	Noson Adborth Cynnydd Y 6ed i flynyddoedd 12 a 13eg rhwng 16:00 i 18:30 yn yr ysgol
Dydd Gwener 09.12.22	HMS i staff – dim ysgol i ddisgyblion
Nos Lun 12.12.22	Noson Adborth ar Gynnydd Blwyddyn 10 rhwng 16:00 i 18:30 yn yr ysgol
Llun 12.12 – Gwener 23.12.22	Ffug Arholiadau Bl. 11 (Bydd amserlen yn cael ei dosbarthu’n fuan)
Nos Lun 19.12.22	Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Tabernacl, Treforus (SA6 8AG), i ddechrau am 18:30
Nos Fercher 21.12.22	Seremoni Gwobrwyo Tystysgrifau Awst 2022 i ddisgyblion Bl.11 a 13eg. Byddwn yn cynnal y noson rhwng 17:00 – 19:00.

Diolch unwaith am eich cefnogaeth barhaus fel rieni a gofalwyr.

Yn ddiffuant,

*Simon Davies*



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
 Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
 Ffôn 01792 560600

E-bost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth: Mr Simon Davies

